Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Lôn Gerbydau Tua'r Dwyrain Yng Nghyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren), Sir y Fflint) (Gwaharddiad Dros Dro ar Gerbydau a Therfyn Cyflymder 40 mya) 2012

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoli Traffig y Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn cynnal diogelwch defnyddwyr y ffordd, a'r gweithlu, tra bod ffensys acwstig yn cael eu gosod yn gyfagos i Gefnffordd Caer – Bangor (A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") yng Nghyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren) (Cyffordd 35a, Brychdyn gynt) yn Sir y Fflint.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad a'r cyfyngiad, y codir arwyddion yn eu cylch yn unol â hynny, yn dod i rym am 09:30 o'r gloch ar 20 Chwefror 2012 ac yn aros mewn grym yn ysbeidiol tan 16:00 o'r gloch ar 7 Gorffennaf 2013 neu nes bod yr arwyddion traffig dros dro'n cael eu symud ymaith yn barhaol. Disgwylir y bydd y gwaith yn digwydd rhwng 09:30 o'r gloch a 16:30 o'r gloch ar ddyddiau Llun i Sadwrn.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gosod terfyn cyflymder o 40 mya ar y darn o'r lôn gerbydau tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt 1500 metr i'r gorllewin o ganolbwynt trosbont Cyffordd 36 (Cyffordd 35a gynt) hyd at bwynt 2100 metr i'r dwyrain o ganolbwynt y drosbont honno;

ii. Gwaharddd unrhyw gerbyd, ar wahân i'r rhai sy'n cael eu defnyddio ar gyfer y gwaith, rhag cael eu gyrru ar y darn o'r gefnffordd sydd wedi ei nodi uchod. Bydd unrhyw waharddiadau o'r fath yn cael ei nodi gan flaenarwyddion traffig, a disgwylir y bydd yn parhau am ddim mwy nag 20 munud, yn ôl yr angen. Disgwylir na fyddai ond angen y gwaharddiad i hwyluso gosod/symud ymaith offer rheoli traffig. Byddai hyn yn cael ei gyflawni yn ystod oriau allfrig, ac ni fydd angen llwybrau dargyfeiriol.

Er na ddisgwylir y bydd y Gorchymyn uchod ond yn weithredol rhwng y dyddiadau sydd wedi eu nodi uchod, bydd yn aros yn ddilys am gyfnod o ddim mwy na 18 mis fel cynllun wrth gefn os digwydd bod angen ailddrefnu'r gwaith neu os bydd angen gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau annisgwyl.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Dewiswch: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/2012).

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

The A55 Trunk Road (Eastbound Carriageway at Junction 36 (Warren Interchange), Flintshire) (Temporary Prohibition of Vehicles & 40 mph Speed Limit) Order 2012

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers have made an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The Order is necessary to maintain the safety of road users and the workforce whilst acoustic fencing is installed adjacent to the Chester – Bangor Trunk Road (A55) (hereinafter referred to as "the trunk road") at Junction 36 (Warren Interchange) (formerly Junction 35a, Broughton) in the County of Flintshire.

The prohibition and restriction, which will be signed accordingly, are expected to come into force at 09:30 hours on 20 February 2012 and remain in force intermittently until 16:00 hours on 7 July 2013 or until the temporary traffic signs are permanently removed. The works are expected to take place between 09:30 hours and 16:30 hours, Monday to Saturday.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Impose a 40 mph speed limit on the length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from a point 1500 metres west of the mid point of the Junction 36 (formerly Junction 35a) over-bridge to a point 2100 metres east of the mid point of the said over-bridge;

ii. Prohibit any vehicle, other than those being used for the works, from being driven in the length of the trunk road specified above. Any such prohibitions will be indicated by advance traffic signs and are expected to be for a maximum period of 20 minutes, as required. The prohibition would only be expected to be required to facilitate the installation/ removal of traffic management. This would be undertaken during off peak hours and no diversionary routes will be necessary.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2012).

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE